SWANSEA INSTITUTE
ATHROFA ABERTAWE
CADWYN

CANOLFAN CYMRU AR GYFER HYFFORDDI LLYWODRAETHWYR AC YMCHWIL

ADDYSG AR GYFER CYNALADWYEDD A DINASYDDIAETH

FYD-EANG EICH DEWIS CHI

Mae Phil Williams wedi gweithio am y rhan fwyaf o'i yrfa yn cynhyrchu ffilmiau a theledu. Yn ystod yr amser hwn treuliodd 17 mlynedd dramor ble y datblygodd ddiddordeb mawr mewn materion amgylcheddol. Dychwelodd i Gymru ychydig dros 8 mlynedd nôl a sefydlodd un o'i brif gwmnïau "Plan-It Eco" gyda'r nod o gymell pobl i "gymryd gwell gofal o'r byd hyfryd hwn" drwy drefnu darlithoedd a gweithdai drwy'r Deyrnas Gyfunol.

Yn yr erthygl hon, mae Phil yn ystyried yr effaith ddynol ar yr amgylchedd, a sut y gallwn ni fel llywodraethwyr wneud ein hysgolion yn fwy "gwyrdd".

Mae hybu Addysg ar gyfer Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-Eang (ACDFE) bellach yn agwedd bwysig o addysg drwy'r DG, ac mae'n cael ei yrru ymlaen gan lywodraethau'r Undeb Ewropeaidd a'r DG yn ogystal ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn golygu fod angen i ni i gyd gael ein haddysgu o wir ystyr y gair "cynaladwyedd" a phwysigrwydd mabwysiadu ffordd o fyw cynaliadwy boed yn y cartref, yr ysgol neu'r gwaith.

I mi mae'r ystyr yn ddigon syml: ein bod ni fel dynolryw yn cymryd beth sydd ei angen o'r blaned heb ei brifo fel y bydd yn dal i fod yno ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n rhaid i ni ddeall fod beth bynnag rydym yn ei wneud yn cael effaith ar y byd rydym yn byw ynddo. Cymerwch y defnydd o ynni er enghraifft. Mae troi golau ymlaen, gyrru car, mewnforio eitemau o wledydd pell, y wasg argraffu a gynhyrchodd y newyddlen yma, bob un yn defnyddio ynni ac yn y DG rydym yn gwastraffu 1/3 o'r holl ynni rydym yn ei gynhyrchu..

Wedyn beth am y bwyd rydym yn ei daflu i ffwrdd, y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu boed yn y cartref neu yn y gwaith, y ffaith fod y DG yn rhedeg allan o safleoedd gwastraff, ein defnydd cynyddol o becynnu (i fyny traean ar y llynedd). Mae'r rhestr yn mynd ymlaen ac ymlaen ond y cwestiwn mae'n rhaid i ni i gyd ofyn i'n hunain ydy:
"Ai hwn yn wir ydy'r byd rydym am ei greu a'i draddodi i'r cenedlaethau a ddaw?"

Rydym wastad wedi cymryd o'n hamgylchfyd naturiol a thrwy hynny achosi effaith, ond nid oes un rhywogaeth erioed yn hanes y byd wedi cael effaith mor negyddol ar y byd hwn, ag yr ydym ni'r ddynolryw wedi ei gael yn ystod y 100 mlynedd diwethaf. Dywedodd un amgylcheddwr enwog yn ddiweddar ein bod yn ymddwyn fel petai fod gennym blaned daear arall i fynd iddi hi.

Serch hyn rwyf yn grediniol, drwy ymwybyddiaeth ac addysg ehangach ar bob lefel o gymdeithas, mae gennym ni fel dynolryw'r gallu i wneud pethau hyfryd ac i greu byd cynaliadwy y gallwn fod yn falch ohono. Does dim ots pa mor fach ydy'r cam rydym yn ei gymryd, dylwn serch hynny ei gymryd, bob un ohonom, gan sylweddoli os byddwn i gyd yn camu yn y cyfeiriad iawn gyda'n gilydd byddwn yn cymryd cam bras iawn tuag at greu dyfodol cynaliadwy i ni i gyd.

Agwedd o'm gwaith a fu'n gysur mawr i mi yn ystod y 12 mis diwethaf ydy fy mod wedi gweld cynnydd anferth mewn ceisiadau am weithdai, seminarau, a chyflwyniadau ar draws holl haenau cymdeithas. O gwmnïau bach i gorfforaethau mawrion, o ysgolion a cholegau trwodd i sefydliadau hyfforddi athrawon, o awdurdodau lleol i gymdeithasau cymunedol, yn awr mae gwir ddiddordeb i ddarganfod a deall beth sydd yn digwydd i'n byd mewn gwirionedd.
Mae hi'n hollol hanfodol serch hyn ein bod nid yn unig yn cefnogi Addysg ar gyfer Cynaladwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-Eang ond hefyd yn mabwysiadu ffordd o fyw sydd yn ei gwmpasu. Yn ffodus, mae'n rhaid i ysgolion a busnesau fel ei gilydd sylweddoli nad yw mabwysiadu agwedd mwy cynaliadwy yn y gweithle yn golygu newid arferion gwaith yn llwyr na llawer iawn o waith ychwanegol. Y cwbl mae'n golygu ydy newid ein harferion o ddydd-i-ddydd..

Rwyf yn cael fy synnu fod yna ysgolion oddi amgylch y wlad sydd yn gyndyn o gwmpasu cynaladwyedd. Yn bersonol rwyf yn meddwl ei fod yn od gan fod dau o agweddau mwyaf pwysig o redeg ysgol yn cael eu heffeithio o fod yn fwy cynaliadwy.

Yn gyntaf, mae ysgolion yn bodoli i baratoi pobl ifanc ar gyfer y dyfodol sydd o'u blaenau. Beth allai fod yn fwy pwysig nag amgylchedd y byd y byddant yn byw ynddo ymhell ar ôl i bobl fel fi ei adael?

Yn ail, mae Penaethiaid a llywodraethwyr yn fy atgoffa drwy'r amser ei fod yn anodd rhedeg ysgol ar gyllideb dynn. Mae dod yn gynaliadwy yn arbed arian i'r ysgol. O'm profiad i, bydd ysgol gynradd nodweddiadol yn arbed lleiafswm o rwng £3,000 a £5,000 y flwyddyn ar eu costau rhedeg, a bydd ysgol uwchradd nodweddiadol yn arbed lleiafswm o rwng f £5,000 a £7,000 y flwyddyn ar eu costau rhedeg. Yn wir, mae un ysgol uwchradd y bues yn gweithio gyda hi yn Lloegr yn agos at ei tharged o arbed £15,000 erbyn diwedd y flwyddyn hon oherwydd iddynt fabwysiadu nifer o arferion a rhaglenni cynaliadwy.

Pa mor wyrdd yw eich ysgol chi?

Felly beth y gallwch chi fel llywodraethwyr ei wneud i sicrhau fod eich ysgol yn cymell cynaladwyedd, yn arbed adnoddau, ac ar yr un pryd, yn arbed arian?

Dyma restr o gwestiynau y gallech eu hystyried.

- Faint o bapur mae eich ysgol yn ei ddefnyddio bob blwyddyn?
- Oes gan yr ysgol bolisi o archebu papur wedi ei ailgylchu yn unig? Ydy'r ysgol yn ailgylchu papur?
- Pa mor aml mae'r ysgol yn gwirio'r sêl sydd oddi amgylch drysau a ffenestri?
- Faint o ddwr mae'r ysgol yn ei ddefnyddio mewn blwyddyn? Faint sydd yn cael ei wastraffu?
- Oes gan yr ysgol bolisi troi golau i ffwrdd?
- Faint o gyfrifiaduron sydd yn cael ei gadael ymlaen trwy'r dydd?
- Sut mae'r ysgol yn delio gyda phroblem traffig ar ddechrau a diwedd pob diwrnod ysgol?
- Oes gan yr ysgol gôd gwyrdd?
- Beth mae'r ysgol yn ei wneud ynglyn ag unrhyw broblem sbwriel mae'n ei wynebu?
- Ydy'r ysgol wedi edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio ynni amgen? (Erbyn hyn, mae yna grantiau gan y llywodraeth ar gyfer ysgolion.)
- O ble mae'r bwyd yn dod sydd yn mynd i mewn i brydiau ysgol? Ydy e' yn ffres? Ydy e' yn lleol?
- Oes yna gynllun compostio yn cael ei ddefnyddio gan yr ysgol?

Am ba reswm bynnag, mae angen i ni i gyd edrych ar ffyrdd o wneud effaith gadarnhaol ar y lle hyfryd yma rydym ni i gyd yn ei alw yn gartref. Mae ein plant yn ei haeddu.

PA MOR DDA YDYCH CHI YN Y GADAIR?

Yn ein rhifyn diwethaf o "Cadwyn" adroddais ein bod wedi bod yn gwneud ymchwil i mewn i rôl Cadeirydd corff llywodraethol ac, yn enwedig, i'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn Gadeirydd da. Fel rhan o'n hymchwil cysyllton ni gyda nifer o Gadeiryddion, Penaethiaid a Swyddogion Cefnogaeth Llywodraethwyr awdurdodau lleol presennol am eu barn. Roedd y tri grwp yn teimlo mai'r ddwy elfen fwyaf pwysig y dylai Cadeirydd feddu arnynt oedd y gallu i weithio'n dda gyda'r Pennaeth a hefyd i gynnwys pob llywodraethwr yn effeithiol yng ngwaith y corff llywodraethol.

Ers ein cyhoeddiad diwethaf, rwyf wedi siarad gyda nifer o lywodraethwyr mewn cynadleddau a sesiynau hyfforddi rydym wedi eu trefnu, ac mae nifer eithaf sylweddol wedi gofyn i fi am wybodaeth bellach am ein darganfyddiadau. Mae'r rhan fwyaf wedi bod yn awyddus i wybod pa sgiliau cadeirio eraill sydd wedi cael eu dynodi'n bwysig gan Gadeiryddion, Penaethiaid a Swyddogion Cefnogaeth Llywodraethwyr eraill. Wel, dyma beth rydym wedi ei ddarganfod.

Y peth mwyaf amlwg oedd bod pawb yn meddwl yr un peth, felly roedd sgiliau yr ystyriwyd yn bwysig gan Gadeiryddion yn cael eu dynodi'r un mor bwysig gan y Penaethiaid a'r Swyddogion Cefnogaeth Llywodraethwyr, tra roedd yr un unffurfiaeth barn ynghylch yr elfennau llai pwysig. Roedd canfod gymaint o gytundeb barn yn gryn gysur.

Darganfyddon ni yn ein harolwg o'r tri grwp mai'r sgil mwyaf pwysig, ar ôl y ddau a grybwyllir uchod, oedd gallu'r Cadeirydd i adnabod y gwahaniaeth rhwng llywodraethu ysgol (rôl llywodraethwyr) a rheolaeth ysgol o ddydd-i-ddydd (rôl y Pennaeth a'r staff). Rhywbeth y byddwn ni i gyd yn cytuno arno ond sydd ddim bob amser yn amlwg. Wedyn daeth y gydnabyddiaeth fod angen i Gadeirydd fod yn gyfathrebydd clir, sgil arall y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ystyried yn bwysig iawn.

Dynodwyd y ddau sgil nesaf yn gyfartal gan ein tri grwp ac mewn sawl ffordd maent yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. - y gallu i ddelio gyda materion anodd a'r gallu i ddelio gyda materion yn sensitif. Wedi ei osod bron yr un mor uchel â'r ddau hyn oedd y gallu i gymryd safbwynt diduedd. Rwyf yn sicr fydd y rhai ohonoch sydd wedi gorfod wynebu penderfyniadau anodd parthed materion cyllid, staffio ac ymddygiad disgyblion wedi cael fod y sgiliau yma wedi eu profi i'r eithaf.

O ystyried maint y gwaith sydd gan ysgolion a chyrff llywodraethol i'w cyflawni, ni fyddwch yn cael eich synnu gan y pwysigrwydd a roddir i'r grwp nesaf o sgiliau. Y rhain oedd sgiliau trefnu da, sgiliau gwrando da a sgiliau rheolaeth amser.

Cawsom ein synnu ychydig fod yr elfen nesaf wedi ei gosod mor isel gan bob un o'r tri grwp, o dderbyn ein bod yn cael ein hystyried fel cymdeithas sy'n gynyddol ymwybodol o'r gyfraith - gwybodaeth am ddeddfwriaeth corff llywodraethol, a'i chymhwysiad. Rwyf yn sicr, serch hynny, nad yw hyn yn golygu fod cyrff llywodraethol Cymru yn barod i anwybyddu'r gyfraith!

Y sgiliau yr ystyriwyd i fod o bwysigrwydd isel ar gyfer Cadeirydd oedd sgiliau siarad cyhoeddus da a sgiliau cyfryngol da (h.y. delio gyda'r wasg, teledu a'r radio). Fel y

dywedodd un Cadeirydd wrthyf, "Rwyf yn meddwl fod hynny'n fwy o fewn gwaith y Pennaeth."

Felly, i ble rydym yn mynd o'r fan yma? Fel Cadeirydd efallai y byddwch yn penderfynu gwneud rhyw hunanwerthusiad i weld pa mor uchel yr ydych yn dod yn y sgiliau rydym wedi eu hamlinellu uchod. Rydym ni yn y Canolfan wedi cael ein comisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu rhaglen hyfforddiant genedlaethol ar gyfer Cadeiryddion; a gallwn eich sicrhau y byddwn yn cymryd i ystyriaeth beth mae ein cyd-weithwyr yn ei feddwl pan fyddwn yn dechrau.

ODDI WRTH REOLYDD Y CANOLFAN

Yn ogystal â gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Canolfan yn rhedeg sesiynau hyfforddi ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ac mae hefyd yn gwneud ymchwil ddi-gomisiwn. Enghraifft o'r diwethaf ydy gwaith rydym yn ei wneud ar y funud ar effaith hirdymor hyfforddiant ar arferion cyrff llywodraethol. Fel y gwyddoch, mae'n debyg, dydy'r hyn rydym yn ei ddysgu mewn sesiwn hyfforddi yn cael fawr o effaith go iawn ar y ffordd rydym yn gwneud ein gwaith fel llywodraethwyr - yn bennaf oherwydd ei fod yn cael ei wthio i'r naill ochr gan brysurdeb y "byd go iawn" o lywodraethu ysgol. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon, rydym yn edrych ar ffyrdd y gall cyrff llywodraethol wneud y gorau o effaith yr hyfforddiant, a hefyd ar y dasg anodd iawn o fesur effaith. Mawr obeithiwn bydd ein darganfyddiadau'n eich cynorthwyo..

Nodais yn rhifyn diwethaf "Cadwyn" fod Karen Evans, Gweinyddydd y Canolfan, wedi symud i swydd newydd ym Mhrifysgol Abertawe. Mae Angela Radcliffe yn olynu Karen yn y swydd. Ar ran y Canolfan, hoffwn groesawu Angela a dymuno'r gorau iddi yn ei swydd gyda ni.

Steve Gullick

NEWYDDION LLYWODRAETHWYR CYMRU

- Dechreuodd Mike Barker ar ei swydd fel Swyddog Datblygu yn Ebrill 2007, gan olynu Ann Robertson. Cyn ei apwyntiad roedd Mike yn Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant ym Mhowys (1992-2005) ac mae'n gyn Gadeirydd o Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru ac ymgynghorydd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Hoffwn ddiolch i Ann am ei gwaith gyda Llywodraethwyr Cymru a dymuno'r gorau iddi yn ei swydd newydd fel cyfarwyddwraig Ysgolion a Cholegau ar gyfer Archesgobaeth Caerdydd.

- Yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraethwyr Cymru ei Gyfarfod Blynyddol Cyffredinol a Chynhadledd Haf ar Ysgolion â Ffocws Cymunedol ar 16eg Mehefin 2007. Traddodwyd y brif ddarlith gan Mr M Keating, Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes gyda Rhondda Cynon Taf. Bydd adroddiad o'r gynhadledd ar gael yn fuan a gellir cael mynediad iddo ar www.governorswales.org.uk neu fe ellir cael copïau oddi wrth Swyddfa Llywodraethwyr Cymru. Mae gwybodaeth ar gael hefyd am y gynhadledd ranbarthol a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru ym mis Ebrill ar 'Rheoli Llefydd mewn Ysgolion.'

- Mae diweddariad y llawlyfr ar gyfer llywodraethwyr ysgol yn cynnwys deddfwriaeth gyfredol yn mynd rhagddo. Bydd copïau yn cael eu dosbarthu ym mis Medi.

- Mae gwefan Llywodraethwyr Cymru ar ganol cael ei hail-gynllunio.

- Mae'r Ffeiliau o Ffeithiau diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraethwyr Cymru yn canolbwyntio ar "Gweithdrefnau Disgyblaethol Staff" ac "Addysg yng Nghymru a Lloegr - cymhariaeth". Mae copïau ar gael gan Swyddfa Llywodraethwyr Cymru neu fe ellir ei llawr lwytho ar ffurf PDF ar www.governorswales.org.uk. Cyhoeddiadau pellach i edrych allan amdanynt ydy canllawiau i lywodraethwyr ar 1) Ysgolion â Ffocws Gymunedol a 2) Penodi prifathrawon/dirprwy brifathrawon.

Llywodraethwyr Cymru **Governors Wales**

LLINELL GYMORTH LLYWODRAETHWYR

0845 6020100

yw'r linell gymorth newydd ar gyfer llywodraethwyr ysgolion yng Nghymru.

Mae'r linell gymorth a weithredu'r gan Lywodraethwyr Cymru yn darparu cyngor ar ystod o faterion I lywodraethwyr ar draws Cymru.

SGYRSIAU

Yn gynyddol, fel mae niferoedd disgyblion yn gostwng, mae ysgolion yng Nghymru'n uno. Yn y rhifyn hwn o "Sgyrsiau", mae'r golygydd, Steve Gullick, yn siarad gyda Cheryl Wheldon, Pennaeth Ysgol Gynradd Coedffranc yn Nedd Port Talbot. Cafodd yr ysgol, lle mae ychydig o dan 500 disgybl, ei chreu o ganlyniad i uniad Ysgol Babanod Coedffranc ac Ysgol Iau Coedffranc.

SG Faint o amser sydd ers i'r ddwy ysgol uno i ffurfio Ysgol Gynradd Coedffranc.?

CW Agorodd yr ysgol fel y cyfryw ym Medi 2006 ond roedd yr amser yn arwain i fyny, pan oedd y gwaith paratoi yn cael ei wneud, yn tua 2 flynedd. Wnes i ddim dechrau fy swydd fel Pennaeth tan Ionawr 2007, am fod yr ysgol ble roeddwn yn Bennaeth arni ar y pryd, yn cael ei harolygu, felly o Fedi hyd Ionawr roedd gan Goedffranc Bennaeth dros dro.

SG Beth oedd yr heriau mwyaf i chi, y staff ac, yn enwedig, y llywodraethwyr wrth drefnu uniad llyfn?

CW Mae'r rhestr mor hir, gallwn ni fynd ymlaen drwy'r prynhawn, ond fe wnaf ganolbwyntio ar y prif rai fel rwyf fi yn eu gweld. Yn gyntaf oll, cyn i'r ysgol agor hyd yn oed, roedd yn rhaid i'r gwaith papur angenrheidiol gael ei wneud ac roedd yn rhaid rhoi'r gweithdrefnau cywir yn eu lle i sicrhau nad oedd unrhyw broblemau gweinyddol neu gyfreithiol. Wedyn roedd yn rhaid i ni drefnu cyfarfodydd staff a llywodraethwyr. Roedd hyn yn arbennig o bwysig gan fod y ddau yn dod o wahanol ysgolion ac yn naturiol roedd ganddynt ddiwylliannau ac arferion gwahanol. Roedd yn hanfodol fod y staff a'r llywodraethwyr yn derbyn bodolaeth y gwahaniaethau yma, a'u bod hefyd yn deall y byddai'n rhaid iddynt addasu arferion blaenorol ar gyfer ein hysgol newydd. Yn olaf, sylweddolodd y llywodraethwyr y byddai'n rhaid iddynt wneud penderfyniadau caled ar brydiau, yn enwedig ar faterion megis lleihau oriau ar gyfer rhai staff ac, mewn rhai achosion, eu rhoi ar y clwt.

SG Cais go anodd ar eich cyfer i gyd! Sut aethoch chi o gwmpas cwrdd â'r heriau?

CW Alla i ddim pwysleisio digon pwysigrwydd adeiladu perthynas dda, a bod mor agored â phosibl, ac oherwydd hyn roedd cyfarfodydd cyson yn bwysig. I ddweud y gwir, ym mis Gorffennaf rydym yn cael cyfarfod staff a llywodraethwyr i rannu ein safbwyntiau ar ein gweledigaeth ar gyfer yr ysgol a chynhyrchu datganiad cenhadaeth. Ac mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i yn meddwl fod hyn yn fwy anodd pan rydych yn uno dwy ysgol oedd a'u gweledigaeth a'u traddodiadau eu hunain yn hytrach na pan rydych yn agor ysgol newydd sbon sydd, wrth gwrs heb unrhyw hanes. Unwaith y bydd gennym ein gweledigaeth a'n datganiad cenhadaeth mewn lle bydd gennym nod clir y gallwn i gyd ei rannu a fframwaith y gallwn weithio oddi mewn iddo. Mae dwy ffactor dyngedfennol sydd eu hangen, yn fy marn i, ar gyfer cwrdd â'r heriau sydd ynghlwm wrth uniad. Yn olaf, rhaid wrth ymlyniad amser. Os yw uniad i lwyddo felly, mae'n rhaid i ni i gyd sylweddoli fod yn rhaid inni roi'r adnawdd gwerthfawr iawn yna - amser - i fyny yn ddirwgnach.

SG Felly'r pedwar peth mwyaf pwysig yn eich tyb chi ydy adeiladu perthynas waith dda, rhannu gweledigaeth, nodau clir a pharodrwydd i roi o'ch amser.

CW Ie, rwyf yn meddwl bydd pethau eraill yn dilyn wedyn.

SG Iawn, felly pa ran gymrodd y corff llywodraethol i'ch cynorthwyo?

CW Wel, yn gyntaf oll, maent wedi bod yn fwy na pharod i roi i fyny o'u hamser, Fel y gallwch ddychmygu, cafwyd llawer mwy o gyfarfodydd o'r corff llywodraethol llawn a'r pwyllgorau na'r arfer. Rydym wedi gorfod gosod strwythur staffio, pennu cyllideb, gwneud apwyntiadau ayb. Mae ymroddiad y corff llywodraethol wedi bod yn ardderchog.

Yn ail, os oes gan lywodraethwr sgil arbennig, sydd wedi bod yn ddefnyddiol i'r ysgol, maent wedi ei gynnig. Mae hyn yn rhywbeth mae ysgol yn gwerthfawrogi ar unrhyw adeg ond mae ddwywaith yn bwysicach yn ystod uniad pan fydd problemau cychwynnol yn ymddangos yn sydyn.

Yn olaf, mae llywodraethwyr wedi bod yn ddigon parod i ofyn cwestiynau i egluro materion oedd efallai yn achos pryder iddynt. Mae hyn wedi bod yn bwysig iawn gan fod gwir angen i'r llywodraethwyr deimlo'n hapus gyda beth sydd yn digwydd, yn enwedig gan eu bod yn "genhadon" i'r ysgol yn y gymuned ac mae'n rhaid iddynt allu siarad yn wybodus a hyderus am sut mae pethau yn mynd, yn enwedig wrth rieni pryderus.

SG Yn olaf, pa gyngor fyddech chi'n ei roi i gyrff llywodraethol eraill sydd yn wynebu uno?

CW Yn y lle cyntaf, mae'n rhaid i chi fod yn barod i dreulio mwy o amser ar lywodraethu nag yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol: rwyf yn sicr y byddai llywodraethwyr Coedffranc yn cytuno gyda hynny. Yn ail, sicrhau eich bod yn gwybod yn llawn am bob newid a hefyd goblygiadau'r newidiadau. Ac yn y cyswllt hwn, peidiwch â bod ag ofn gofyn cwestiynau, waeth pa mor amherthnasol neu amlwg y bônt yn ymddangos; mae gwir angen i lywodraethwyr wybod beth sydd yn digwydd. Wedyn ceisiwch weld y darlun mawr ac yn enwedig beth fydd yr ysgol yn edrych fel pan fydd yr uno wedi ymwreiddio go iawn. O, a gallai hyn gymryd yn hirach na'r disgwyl, felly peidiwch â disgwyl i bethau fod yn berffaith yn syth. Ac yn olaf, byddwch yn gadarnhaol bob amser a chofiwch waeth pa mor anodd y mae'r dasg yn ymddangos, mae golau ar ddiwedd y twnnel, ac os byddwch yn gwneud pethau'n feddylgar ac yn gefnogol, dim golau trên yn dod i gwrdd â chi fydd e!

Canolfan Cymru Ar Gyfer Hyfforddi Llywodraethwyr Ac Ymchwil

Ysgol Addysg Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Ffordd Townhill, ABERTAWE SA2 0UT

Ffôn: 01792 482065 (Steve Gullick)

E-bost: steve.gullick@sihe.ac.uk

www.sihe.ac.uk/schoolgovernor